Busnes Cymru | Business Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYFARWYDDYD, DOCUMENT

# Awgrymiadau da ar gyfer gwella eich effeithlonrwydd - Gweithgynhyrchu

Gweithgynhyrchu

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 21 Hydref 2024

**Diweddarwyd diwethaf:** 21 Hydref 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**

Ewch i **https://busnescymru.llyw.cymru/dogfennau/awgrymiadau-da-ar-gyfer-gwella-eich-effeithlonrwydd-gweithgynhyrchu** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

**gwybdaeth am hawlfraint**

Gall lleihau gwastraff, nid yn unig fod yn bwysig i'r amgylchedd, ond gall arbed costau mawr. Mae llawer o sefydliadau sydd wedi rhoi mesurau ar waith i leihau eu gwastraff a dod yn fwy effeithlon o ran adnoddau wedi elwa hefyd ar fwy o gymhelliant ymhlith gweithwyr ac amgylchedd gweithio gwell. Dyma rai awgrymiadau syml

- Mae'r rhan fwyaf o broblemau cyfreithlon amgylcheddol yn cael eu hachosi gan broblemau gwaredu gwastraff a gorlifiau. Dylech chi ganolbwyntio ar y meysydd hyn, yn enwedig os ydych chi'n defnyddio cemegau peryglus.
- Mae dyletswydd gofal yn cynnwys diogelu gweithwyr, cymdogion, y gymuned a'r amgylchedd. Bydd angen i chi ystyried sbwriel, arogleuon, llwch a s?n, i fodloni gofynion rheoleiddio.
- Gall cyfleu eich 'cymwysterau gwyrdd' eich helpu i ennill a chadw cwsmeriaid a chleientiaid newydd.
- Ysgrifennwch llif proses cam wrth gam o ddosbarthu'r deunydd crai, i becynnu ac anfon, i helpu chi nodi sut y gallwch leihau eich gwastraff.
    - Ym mhob cam, rhestrwch y prif ddeunydd crai a ddefnyddir, yr ynni a'r d?r a ddefnyddir ac unrhyw ddeunyddiau peryglus posibl.
    - Amlygwch ble mae gwastraff yn cael ei greu a faint o wastraff sy'n cael ei greu
    - Ystyriwch faint mae'r deunyddiau sy'n cael eu gwastraffu'n eich costio i'w prynu, eu storio a'u gwaredu.
    - Peidiwch ag anghofio cynnwys costau ar gyfer deunydd pacio, carthion, ac ynni, ac ystyriwch a oes modd gwneud y ffordd y mae staff a deunyddiau'n symud o gwmpas eich eiddo yn fwy effeithlon. Chwliwch am newidiadau hawdd i'w gweithredu a fydd yn arwain at ganlyniadau ar unwaith
    - Dylech flaenoriaethu rhai o'r prif broblemau a fydd yn creu'r arbedion neu'r gwelliannau amgylcheddol mwyaf.
    - Ystyriwch eich cadwyn gyflenwi. Os yw'n bosibl, prynwch yn lleol i leihau allyriadau trafnidiaeth. Gweithiwch gyda chyflenwyr i ad-drefnu dosbarthiadau. Allwch chi ailddefnyddio deunydd pacio neu ei ddychwelyd i'w ailddefnyddio? A oes cyfleoedd i gyfuno dosbarthiadau cynhyrchion â

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**

Ewch i **https://busnescymru.llyw.cymru/dogfennau/awgrymiadau-da-ar-gyfer-gwella-eich-effeithlonrwydd-gweithgynhyrchu** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

**gwybdaeth am hawlfraint**

chasgliadau? A oes gwasanaethau atgyweirio, ailddefnyddio neu ailwampio ar gael ar gyfer offer?
    - Gwiriwch eich safle am ollyngiadau (o bibelli d?r ac unrhyw bibelli a ddefnyddir i gludo deunyddiau crai rhwng prosesau), yna dylech atgyweirio unrhyw ollyngiadau a ganfyddwch.
    - Mae Business Resource Efficiency Hub WRAP yn darparu canllawiau, gwybodaeth ac offer i helpu’r sector gweithgynhyrchu. Ewch i **www.wrap.org.uk/content/business-resource-efficiency-hub**
    - Mae Finding Cost Savings: Resource Efficiency for SMEs yn darparu gwybodaeth gyfeirio gryno, ddefnyddiol ar effeithlonrwydd adnoddau, deddfwriaeth amgylcheddol ac offer rheoli. Mae hefyd yn cynnwys trosolwg o’r gweithgareddau y gall busnesau bach fod yn gysylltiedig â nhw. Ewch i **www.wrap.org.uk/content/finding-cost-savings-resource-efficiency-smes**
- Os oes gennych chi unrhyw bryderon, cysylltwch â Cyfoeth Naturiol Cymru gan fynd i **www.naturalresourceswales.gov.uk** neu ffoniwch 0300 065 3000.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**

Ewch i **https://busnescymru.llyw.cymru/dogfennau/awgrymiadau-da-ar-gyfer-gwella-eich-effeithlonrwydd-gweithgynhyrchu** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

**gwybdaeth am hawlfraint**